



Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg

9 Ebrill 2019

Cofnodion

Yn bresennol:		
Enw	Teitl	Sefydliad
Mark Brace (MB)	Comisiynydd Cynorthwyol	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Claire Evans (CE)	Uwch-arolygydd	Heddlu De Cymru
Y Cyng John Thomas (JT)	Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Rob Thomas (RT)	Rheolwr Gyfarwyddwr	Cyngor Bro Morgannwg
Judith Cole (JC)	Dirprwy Bennaeth Gweithlu a Phartneriaethau Cymdeithasol (Llywodraeth Leol)	Llywodraeth Cymru
Christian Hadfield (CH)	GM - Adran Gweithrediadau (Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr)	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Huw Jakeway (HJ)	Prif Swyddog Tân	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
John Hogg (JH)	Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth y De	Cyfoeth Naturiol Cymru
Fiona Kinghorn (FK)	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd	BIP Caerdydd a'r Fro
Rachel Connor (RC)	Cyfarwyddwr Gweithredol	Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
Emil Evans (EE)	Is-brifathro	Coleg Caerdydd a'r Fro
Y Cyngorydd Mike Cuddy (MC)	Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned Enwebedig	Cyngor Tref Penarth
Hefyd yn bresennol:		
Huw Isaac (HI)	Pennaeth Perfformiad a Datblygu	Cyngor Bro Morgannwg
Helen Moses (HM)	Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg
Lloyd Fisher (LF)	Uwch Swyddog Data a Pholisi	Cyngor Bro Morgannwg
Joanna Beynon (JB)	Swyddog Polisi	Cyngor Bro Morgannwg
Deborah Gibbs (DG)	Prif Swyddog Diogelwch Cymunedol	Cyngor Bro Morgannwg
Mark Davies (MD)	Rheolwr Atal a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg
Anne Wei (AW)	Rheolwr Partneriaeth a Chynllunio Strategol	BIP Caerdydd a'r Fro
Ymddiheuriadau:		

Paula Ham (PH)	Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau	Cyngor Bro Morgannwg
Hannah Williams (HW)	Pennaeth De Cymru Un	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Alun Morgan (AM)	Prif Uwch-arolygydd	Heddlu De Cymru
Nadia De Longhi (ND)	Rheolwr Gweithredoedd	Cyfoeth Naturiol Cymru
Abigail Harris (AH)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio	BIP Caerdydd a'r Fro

	Camau Gweithredu
<p>1. Croeso a chyflwyniadau</p> <p>Croesawodd MB bawb i'r cyfarfod a bu cyflwyniadau. Dywedodd y gofynnwyd iddo gadeirio'r cyfarfod gan nad oedd modd i'r Cynghorydd Thomas aros am y cyfarfod i gyd.</p>	
<p>2. Ymddiheuriadau</p> <p>Gweler uchod.</p>	
<p>3. Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Gwasnaethau Cyhoeddus ar 9 Chwefror 2018</p> <p>Cytunwyd bod gofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod cywir gan y Bwrdd Partneriaid.</p>	
<p>4. Trafodaeth BGC Caerdydd a'r Fro ar y Cyd</p> <p>Esboniodd RT fod sgysiau wedi'u cynnal ynghylch y posibilrwydd am gyfarfodydd ar y cyd rhwng BGCau Caerdydd a'r Fro a fformat y rhain. Amlinellodd RT y prif themau i'w hystyried a bod ysgogwyr yn cynnwys disgwyliadau Llywodraeth Cymru, aliniad gwllid gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a lleihau dyblygu.</p> <p>Mae cyfle i rannu arfer da ac alinio gweithgareddau tebyg ledled y rhanbarth. Gan fod nifer o'r partneriaid ar draws y BGCau yr un peth, mae cwmpas i ystyried yr hyn y gellir ei symud ymlaen trwy gyfarfodydd ar y cyd.</p> <p>Roedd partneriaid yn awyddus ystyried y posibilrwydd o'r ddau FGC yn cydweithio'n fwy agos ond cydnabuon nhw, er bod materion tebyg ar draws y ddwy ardal a synergedd rhwng y ddau set o Amcanion Llesiant, y gallai datrysiadau fod yn wahanol ar lefel leol. Roedd partneriaid yn awyddus i sicrhau, ni waeth y cyd-drefniadau sy'n cael eu sefydlu, fod ffocws lleol o hyd. Nodwyd y bydd angen agweddau gwahanol at rai materion yn y brifddinas o gymharu ar sut mae angen mynd i'r afael â materion mewn ardaloedd mwy gwledig.</p> <p>Trafododd y Bwrdd fanteisio a chyfyngiadau'r 4 opsiwn posibl a gyflwynwyd ym mhapur y cyfarfod ar gyfer yr eitem agenda hon sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwneud dim. • Sefydlu digwyddiadau bob chwe mis neu ddysgu ar y cyd blyneddol • Cynnal cyfarfodydd gyda ffocwn rhanbarthol ac ar ardal benodol bob yn ail • Creu BGC ar y cyd unigol <p>Dywedodd HJ fod partneriad yn cael trafferth gyda chapasiti a bod nifer o bartneriaid yn sefyll ar sawl BGC a gweithgor felly gallai trafodaethau ar y cyd leihau dyblygu. Ymatebodd RT gan ddweud bod y Fro â strwythur cymharol</p>	

<p>ysgafn o ran gweithgorau. Ychwanegodd HM fod strwythur BGC Caerdydd yn wahanol i'r Fro gan fod ganddo lawer mwy o haenau. Mae gan BGC y Fro nifer llai o gyfarfodydd i gadw'r ffocws yn lleol, ond gwerthfawrogir fod partneriaid yn mynychu llawer o gyfarfodydd ar gyfer BGCau eraill.</p> <p>Trafododd y BGC sut y gallai hyn gysylltu â gwaith y BPRh a'r angen am berthynas gryf rhwng y BPRh a'r BGCau. Fodd bynnag, cydnabuwyd fod gan y BPRh drefniadau llywodraethu amlwg ar waith ac yn lle gwahodd aelodau'r BPRh i'r gweithdy arfaethedig, y byddai FK yn dod â manylion am waith y BPRh i'r gweithdy i helpu i dwys trafodaethau.</p> <p>Cytunodd y Bwrdd Partneriaid ei bod yn ymddangos mai'r angen i ystyried yr opsiynau ynghylch y cyfarfodydd amgen/dysgu bob chwe mis yw'r ffordd ymlaen orau gyda bwriad o symud ymlaen o bosibl tuag at yr opsiwn am FGC ar y cyd unigol yn y dyfodol.</p> <p>Cytunodd y Bwrdd y dylai'r ffordd ymlaen gychwynnol gynnwys cyfarfod anffurfiol i ystyried sut y byddai'n gweithio, cynnal ffocws lleol a heb drefniadau llywodraethu wedi'u cyfyngu. Nododd HJ fod dull tebyg wedi'i gymryd ym Mhen-y-bont ar Ogwr sydd wedi galluogi cyfleoedd i gydweithredu tra'r cadw hunaniaeth unigol Cynlluniau Llesiant.</p> <p>Dywedodd HI wrth y BGC mai'r camau nesaf yw i FGC Caerdydd gael sgwrs tebyg gyda'i aelodau ddydd Iau 11 Ebrill gyda'r bwriad o ddefnyddio cyfarfod nesaf BGC y Fro o bosibl fel gweithdy ar y cyd i helpu i nodi ffordd ymlaen glir. Cytunodd y Bwrdd Partneriaid i'r gweithdy BGC ar y cyd gael ei gynnal yn y cyfarfod nesaf.</p>	<p>FK</p> <p>HI/HM</p>
<p>5. Datblygu Strategaeth Diogelwch Cymunedol</p> <p>Cyflwynodd DG y cynnig i ddatblygu Strategaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer y Fro. Byddai'r Strategaeth yn sicrhau ffocws lleol clir ar weithgareddau diogelwch cymunedol yn y Fro tra'n gweithio o hyd ar nifer o faterion allweddol yn rhanbarthol. Amlinellodd DG fod diogelwch cymunedol yn cysylltu â nifer o Amcanion Llesiant yn y Cynllun Llesiant a cheisiodd gyngor ar sut orau y gallai'r bartneriaeth diogelwch cymunedol gysylltu a chyfathrebu â'r BGC a sut i sicrhau bod her digonol.</p> <p>Dywedodd CE wrth y BGC fod llawer o waith wedi'i wneud gan Heddlu De Cymru ar y broses uwchgyfeirio sy'n cynnwys partneriaethau diogelwch cymunedol lleol a BGCau. Cytunodd CE i rannu'r papurau uwchgyfeirio ar ddatrys problemau sy'n dangos bod strwythur clir ar waith i bartneriaid ac uwchgyfeirio problemau i'r BGC.</p> <p>Esboniodd FK ei bod wedi treulio 2 flwyddyn yn cadeirio'r Bwrdd Partneriaeth Ardal (BPA) dros gamddefnyddio sylweddau. Mae gan y BPA bartneriaeth ar wahân sy'n galluogi arolygiaeth strategol o gamddefnyddio sylweddau'n gorgyffwrdd â diogelwch cymunedol a bod angen integreiddio cryfach. Ar hyn o bryd mae papurau'n cael eu rhannu gyda BGC Caerdydd sy'n dangos yr arolygiaeth strategol. Hefyd byddai FK yn awyddus i rannu'r papurau gyda BGC y Fro. Hefyd trafodwyd y posibilrwydd o'r BPA'n cysylltu â'r Bwrdd Gwasanaeth</p>	<p>CE</p>

<p>Cyhoeddus yn y Fro yn ogystal â thrawsgroesiadau eraill wedi’u nodi rhwng y BPA a’r BGC trwy ofal cymdeithasol a diogelu.</p> <p>Cododd CE ymholiad ar sut mae’r meysydd pwnc ar gyfer y strategaeth wedi’u nodi ym mhapur y cyfarfod wedi’u dewis gan fod pryder ynghylch y ffaith bod gamdriniaeth rywiol dan y bartneriaeth diogelwch cymunedol. Nododd DG y pryder ac y byddai’n ei godi mewn cyfarfod oedd yn cael ei gynnal ar y dydd lau i archwilio data a chytuno ar flaenoriaethau ar gyfer strategaeth y Fro.</p> <p>Cytunodd y BGC yr hoffon nhw dderbyn diweddariadau bob chwe mis gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol</p>	<p>DG</p>
<p>6. Gwasanaeth Prawf a Charchar Ei Mawrhydi - gweithio mewn partneriaeth</p> <p>Rhoddodd MB ymddiheuriadau HW am beidio â gallu mynychu’n bersonol. Trafododd y Bwrdd gadeirydd y BGC yn llofnodi memorandwm cyd-ddealltwriaeth (MOU) ar ran y BGC, yn galluogi’r Gwasanaeth Prawf a Charchar Ei Mawrhydi (HMPPS) i ymuno â’r BGC yn bartner anstatudol. Trwy lofnodi’r MOU, bydd y HMPPS yn cynnig cynrychiolaeth rheoli mewn cyfarfodydd BGC. Fel cynrychiolydd rhwydwaith y Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, bydd yn helpu partneriaid i fformaleiddio a gweithredu strategaethau i leihau ail-droseddu a chadw cymunedau’n ddiogel.</p> <p>Bydd y HMPPS yn helpu i gyflawni blaenoriaethau a rennir Cynllun Llesiant y BGC, nodi cyfleoedd ar gyfer integreiddio gydag agendau a strategaethau cymunedol. Bydd y HMPPS hefyd yn llunio Adroddiad Partneriaeth chwarterol ar gyfer y BGC i gefnogi dull cyfannol o flaenoriaethu a chynllunio gweithgarwch i wella llesiant lleol ar gyfer y rheiny a allai fel arall ddod yn ddioddefwyr, y gymuned, troseddwy a’u teuluoedd a lle bo’n briodol i weithgareddau’r BGC lleol, helpu i hwyluso dysgu gan y rheiny sydd wedi bod mewn cysylltiad â’r system cyfiawnder troseddol, er mwyn manteisio ar ystod amrywiol o brofiadau a phersbectifau.</p> <p>Cytunodd y Bwrdd i’r HMPPS yn ymuno â’r BGC ac i JT lofnodi’r MOU ar ran y BGC.</p>	<p>JT</p>
<p>7. Diweddariad ar Weithredu Cynllun Llesiant</p> <p>Cyflwynodd HI’r diweddariad ar weithredu’r Cynllun Llesiant ac esboniodd y byddai Amcan 2 ‘lleihau tloidi a mynd i’r afael ag anghydraddoldeb sy’n gysylltiedig ag amddifadedd’ yn cael ei adolygu’n fanwl yn y cyfarfod hwn.</p> <p>Amcan 1 - Diweddariad ar alluogi pobl i gyfranogi, cymryd rhan yn eu cymunedau lleol a siapio gwasanaethau lleol:</p> <p>Rhoddodd CH drosolwg byr o gynnydd i’r grŵp gan y canolbwyntiwyd ar hyn yn fanwl yn y cyfarfod blaenorol. Mae pob cam gweithredu dan yr Amcan hwn yn fyw ac yn barhaus ac eithrio cam gweithredu E6 sy’n parhau i gael ei ohirio oherwydd capasiti. Bydd cyfarfod nesaf y gweithgor ar ymgysylltu ym mis Mai lle y bydd y grŵp yn gwneud ymarfer mapio ymgysylltu. Bydd gwaith yn cael ei</p>	

wneud wrth symud ymlaen gyda chanolbwynt ar ymgysylltu â'r ieuenctid. Disgwylir y caiff cam gweithredu E! ei gwblhau erbyn cyfarfod nesaf y BGC.

Amcan 3 - Rhoi'r dechrau gorau posib ar fywyd i blant:

Rhoddodd MD drosolwg o gynnydd wedi'i wneud yn erbyn pob cam gweithredu dan Amcan 3. Roedd y diweddariadau'n cynnwys; mappio darpariaeth blynyddoedd cynnar wedi dechrau, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf wedi uno eu rhaglenni rhianta, gwaith wedi dechrau mewn perthynas â PPNau gan fod y swydd wag a ariennir gan y BPRh bellach wedi'i llenwi. Mae Teuluoedd yn Gyntaf wedi trefnu sesiynau hyfforddiant ar PPNau a'u bod yn cynnal cynllun peilta i archwilio nifer PPNau y mae plant eu bod mewn cysylltiad â nhw wedi'u profi, mae cynllun gweithredu i gyflwyno hyfforddiant ar PPNau gyda'r consortiwm addysg yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Mae'r Cydlyniad Asesu, Atgyweirio a Cham-drin Domestig (DAARC) wedi'i werthuso ac wrthi'n cael ei adolygu gan yr uwch reolwyr yn yr Awdurdod Lleol Mae'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach wrthi'n adolygu ei threfniadau cyfredol ac yn gweithredu Strategaeth Diogelwch Cymunedol newydd. Mae ymrwymiad i sicrhau bod y bartneriaeth yn bodoli i nodi nodau a rennir. Mae'r adolygiad o wasanaethau dan C22 wedi dechrau ond nid yw wedi symud ymlaen cymaint ag y gobeithiwyd.

Amcan 4 - Diweddariad ar ddiogelu, gwella a gwerthfawrogi ein hamgylchedd:

Dyweddodd JH wrth y Bwrdd Partneriaid fod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud a bod yr adroddiad rheoli asedau wedi'i gwblhau a bod gwaith ar y cyd yng Nghaerdydd o ran teithio llesol yn parhau i ddatblygu. Bydd diweddariad mwy manwl ar gynnydd ar amcan 4 yn cael ei roi yng nghyfarfod nesaf y BGC.

Diweddariad manwl - Amcan 2 - Lleihau tloedi a mynd i'r afael ag anghyrraddoldeb sy'n gysylltiedig ag amddifadedd:

Cyflwynodd FK yr amcan i'r Bwrdd gan nodi bod llawer o ryng-berthnasau rhwng themau dan yr amcan hwn a bod cynnydd da wedi'i wneud yn eang.

Cyflwynodd HM a LF ddata wedi'i ddiweddarau i'r Bwrdd ar ôl cydnabod yr angen i ddod â data o nifer o ffynonellau ynghyd a diweddarau'r Asesiad Llesiant a gyhoeddwyd yn 2017. Dangosodd y data, er bod y gwelir bod y Fro'n gyfoethog, fod dal anghyrraddoldeb go iawn ac mae'r rhain wedi'u hymgasglu mewn ardaloedd penodol. Dywedodd HM wrth y grŵp fod myfyriwr ôl-raddedig o Brifysgol Caerdydd wedi bod yn gweithio gyda thîm i nodi ymchwil diweddar ond mae'r myfyriwr hwn bellach wedi gadael y swydd. Mae posibilrwydd y caiff myfyriwr ôl-raddedig arall ei recriwtio yn y maes gwaith hwn yn y dyfodol. Caiff copi o'r cyflwyniad ei gylchredeg.

Rhoddodd MD ddiweddariad i'r BGC ar drefniadau ariannu hyblyg ar gyfer 2019. Mae deg grant Llywodraeth Cymru wedi'u dwyn ynghyd mewn dau grant ar wahân, grant plant a chymunedau (sy'n cynnwys 7 grant sy'n amrywio o'r blynyddoedd cynnar i gyflogadwyedd) a'r grant tai (sy'n cynnwys 3 grant) sydd ynghyd yn dod i dua £10 miliwn. Mae gwaith i gynnal rhaglenni dan y grant plant

a chymunedau yn y Fro yn symud ymlaen yn dda trwy'r grŵp alinio tlodi a datblygiad cynllun cyflawni grant sydd wedi'i anfon i Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd Partneriaid ar aelodaeth y bwrdd Ariannol Hyblyg Strategol sy'n sefyll gyda'r awdurdod lleol. Mae grŵp arwain y project/rhaglen plant a chymunedau wedi'i sefydlu ac wedi cynnal ei gyfarfod cyntaf ac am ddatblygu nifer o ganlyniadau a rennir i helpu i alinio gweithgareddau.

Tynnodd MD sylw at y ffaith bod nifer o raglenni cyflogadwyedd yn parhau i gael eu cynnal trwy'r Gronfa Gymdeithasol Ewrop, Ysbrydoli i Weithio ac Ysbrydoli i Gyflawni er mwyn darparu sgiliau cyflogadwyedd ac yn rhan o'r trefniadau newydd maent yn cael eu dwyn ynghyd yn y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau.

Rhoddwyd diweddariad arall ar thema cyflogadwyedd dan yr Amcan hwn gan EE yn erbyn cam gweithredu D14. Dros yr ychydig misoedd diwethaf, mae Coleg Caerdydd a'r Fro a'r cydweithiwr Iechyd y Cyhoedd, Rhiannon Urquhart, wedi bod yn gweithio ynghyd â Bwrdd Lleoedd y Barri i nodi mwy o gyfleoedd profiad gwaith ar gyfer myfyrwyr mewn diwydiannau megis twristiaeth ac arlwyyo ac ati. Y cam nesaf ar gyfer y Coleg dros y 6 - 12 mis nesaf y gweithio gyda Joanne O' Keith sy'n arweinydd de-ddwyrain Cymru ar gyfer NTFW sydd â thimau rhanbarthol sydd â'r nod o gynyddu nifer y cyflogwyr sy'n recriwtio prentisiaid ym maes adeiladu, peirianyddiaeth, gofal plant, lletygarwch ac ati i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael.

Atgoffodd EE y Bwrdd fod y gwaith hwn yn cydgyffwrdd â sawl maes arall yn y Cynllun Llesiant. Gwaith arall sy'n dod dan yr adran hon yw ymgysylltu o bosibl â Chynllun Prentisiaid Iau Caerdydd, a dreialwyd yn llwyddiannus y llynedd gyda phrentisiaid oedd yn myfyrwyr yn astudio o leiaf 2 TGAU, mae dros 100 o ddisgyblion bellach ar y Rhaglen Prentisiaid Iau yng Nghaerdydd. Mae EE yn awyddus i archwilio'r agwedd hon fel cynllun peilot yn y Fro.

Daeth FK i ben trwy ddiweddarau'r Bwrdd ar y camau gweithredu sy'n weddill dan Amcan 2. Mae gwaith dan D11 i hyrwyddo negeseuon ymddygiad iach yn allweddol a dylai'r Bwrdd edrych ar ffyrdd o symud y Cynllun Symud yn Fwy, Symud yn Aml ymlaen (trafodwyd y cynllun dan eitem agenda 10) a chytuno ar set o gamau gweithredu. Mae sgysiau dan D16 ar deithio llesol a chwarae awyr agored yn symud ymlaen yn dda ac mae Bwyd y Fro wedi llunio siartr gyda 3 thema allweddol dan D17.

Diolchodd MB yr holl bobl hynny oedd yn gweithio ar gamau gweithredu am eu holl ymdrechion a gwaith caled a nododd fod y diweddariad yn dangos bod llawer o faterion trawsbynciol e.e. ynghylch PPNau.

8. Ymwreiddio Hawliau Plant yng ngwaith y BGC

Rhoddodd HM drosolwg i'r BGC ar yr adroddiad ar gyfer yr eitem agenda hon sy'n crynhoi'r gweithdy a gynhaliwyd ar 14 Chwefror gan y Comisiynydd Hawliau Plant. Roedd y Comisiynydd wedi gofyn yn flaenorol i'r BGC dreialu'n Pecyn Cymorth Hawliau fel BGC. Trafodwyd y Pecyn Cymorth yng nghyfarfod diweddaraf arweinwyr strategol lle oedd y grŵp yn awyddus i adeiladu dyfodol sy'n canolbwyntio camau gweithredu er mwyn helpu i wella gwaith y BGC yn y

<p>maes hwn ac ymwreiddio'r Agwedd Hawliau Plant yn y camau gweithredu cyfredol yn y Cynllun Llesiant.</p> <p>Caiff adborth ar y Pecyn Cymorth ei anfon at y Comisiynydd sy'n nodi yr oedd yn anodd ei gwblhau o bersectif BGC ond gwaeth y pecyn cymorth helpu i ysgogi trafodaethau.</p> <p>Gwnaethpwyd pedwar argymhelliad i'r BGC ar gyfer symud y gwaith hwn yn ei flaen a adeiladodd ar y syniadau a gynhyrchwyd yn y gweithdy a chwblhau'r pecyn cymorth. Y pedwar argymhelliad oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • I'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymgysylltu i gynnal cyfarfod â ffocws ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, rhannu arfer da ac ystyried heriau. • Gweithio gyda'r Cenhadon Hawliau i godi ymwybyddiaeth a herio arferio cyfredol • Ymwreiddio agwedd hawliau plant yng ngwaith ynghylch teithio llesol • Trefnu cyfarfod y BGC gyda'r Fforwm/Cabinet Ieuenctid <p>Dywedodd FK wrth y Bwrdd Partneriaid fod nifer o grwpiau ieuenctid y gall y BGC ymgysylltu â nhw megis bwrdd cynghori iechyd ieuenctid. Ychwanegodd HJ fod gan y gwasanaeth Tân gadetiaid ieuenctid a chenhadon tân y gellir hefyd eu defnyddio gan y Bwrdd</p> <p>Cytunodd y Bwrdd i HM symud ymlaen y pedwar maes gwaith a nodwyd.</p>	<p>HM</p>
<p>9. Trafodaeth: Syniadau Adroddiad Blynyddol y BGC</p> <p>Dywedodd HI wrth y Bwrdd Partneriaid fod gwaith wedi symud ymlaen ers y cyfarfod diwethaf i ddatblygu adroddiad blynyddol ar fideo yn lle ar ffurf ysgrifenedig traddodiadol gyda'r posibilrwydd o greu fideos ategol eraill ar ôl dyddiad cau mis Gorffennaf.</p> <p>Cyflwynodd HM amlinelliad arfaethedig ar gyfer y fideo oedd wedi'i ddatblygu gyda Thîm Cyfathrebu'r Cyngor. Thema'r fideo 3 munud o hyd yw dangos sut mae'r holl amcanion yn cydgyssylltu ac i dynnu sylw at y ffaith bod y BGC ar gychwyn ei waith o gyflawni'r Cynllun Llesiant.</p> <p>Awgrymodd AW y dylai RC fod yn un o gyflwynwyr y fideo i sicrhau bod cydbwysedd trydydd sector. Roedd RC a'r Bwrdd yn hapus iddi roi'r sylwadau cloi. Dywedodd JH ei bod yn bwysig i'r fideo ddangos bod yr holl bartneriaid wedi newid eu ffyrdd o gydweithio'n well yn fawr.</p> <p>Dywedodd FK wrth y Bwrdd fod Microsoft Sway yn ffordd arall dda o gyflwyno fideos a gwybodaeth. Mae wedi'i ddefnyddio gan dîm iechyd y cyhoedd a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Nodwyd, gan fod adroddiadau ar fideo'n dull y mae eraill yn ei ddefnyddio, y byddai o ddiddordeb gweld eraill i gymharu.</p>	
<p>10. Cyflwyniad: Symud ymlaen: Symud yn Fwy ac yn Fwy Aml</p> <p>Cyflwynodd FK ei Hadroddiad Blynyddol 'Symud yn Fwy, Symud yn Aml' i'r Bwrdd, gan ddweud ei fod ar gael ar-lein a thrwy ddolen yn sleidiau'r cyflwyniad</p>	

<p>ar gyfer yr eitem agenda hon. Mae'r adroddiad yn rhoi arweiniad a chyngor i sefydliadau ac unigolion sydd am fod yn fwy actif. Gofynir i sefydliadau gofrestru ar gyfer y camau gweithredu yn yr adroddiad a chadw'r rhain mewn cof wrth ddylunio lleoedd, trefnu cyfarfodydd sefydlog ac ati i fanteisio ar weithgarwch. Gofynnodd FK i bawb oedd yn bresennol i gofrestru ar gyfer y gweithredoedd ac ymrwymo i'r cynigion Symud yn Fwy, Symud yn Aml.</p> <p>Cytunodd y Bwrdd Partneriaid i ymrwymo i'r cynigion yn yr adroddiad. Awgrymodd AW fod 5 munud yn cael eu cynnwys ar yr agenda nesaf lle bo'n dderbyniol i sefyll a cherdded o gwmpas. Cytunodd y Bwrdd.</p> <p>Gofynnodd FK i'r ddolen at yr adroddiad gael ei thrydaru a gofynnodd i'r ddolen gael ei rhannu a'r rhoi ar wefannau.</p>	<p>Pawb</p> <p>Pawb</p>
<p>11. Y Flaenraglen Waith</p> <p>Dywedodd HM wrth y Bwrdd Partneriaid yr edrychir ar Amcan 4 (Diogelu, gwella a gwerthfawrogi ein hamgylchedd' yn fwy manwl yn y cyfarfod nesaf a bydd angen cwblhau'r adroddiad blynyddol.</p>	
<p>12. Unrhyw fater arall</p> <p>Ni chodwyd unrhyw fusnes arall.</p>	
<p>13. Dyddiad y cyfarfod nesaf</p> <p>2 Gorffennaf 2019, 9:00-11:00am, Ystafell Bwyllgor 2, Swyddfeydd Dinesig</p>	